

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Pwll Deri/Pwllcrochan

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 4.0 milltir (6.4 km) 2 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio)

CYMERIAD: Ymylon clogwyni, garw, gall fod yn wlyb ac yn fwdlyd mewn manau, 1.4 milltir (2.2 km) o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Clogwyni ymhlith yr uchaf yn Sir Benfro • golygfeydd o'r arfordir • y frân goesgoch
• adar y môr • morloi


MWY O WYBODAETH: Byddwch yn ofalus iawn os ydych yn mynd i draeth Pwllcrochan

ALLWEDD

- Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- Llwbrau Cyhoeddus
- P Parcio - cyfyngedig
- Bus Safle Bws

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i fwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu



Pwll Deri/Pwllcrochan

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr

Pellter: 4.0 milltir (6.4 km)

Cludiant cyhoeddus: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio).

Cyfeirnod map: SM888372

Mae'r clogwyni rhwng Pwll Deri a Pwllcrochan ymhlith yr uchaf o gwmpas arfordir Penfro ac maen nhw'n lleoliad gwych i gerdded. Chiliwch am adar y môr ac, o gwmpas copa'r clogwyni, y frân goesgoch.

Mae'r frân goesgoch yn brin o amgylch Prydain ond yn aml gellir gweld yr adar hyn ar hyd y darn hwn o arfordir. Maen nhw'n hawdd eu hadnabod wrth eu lliw du sgleiniog a'u pig a choesau pinc llachar.

Yn aml, fe welwch chi'r frân goesgoch wrth iddi chwilio am bryfed ymhlith y blodau gwyllt niferus sy'n ffynnu yn y glaswellt byr sy'n tyfu ar gopa clogwyni'r môr. Yn gynnar yn yr Haf, mae'r llwybr ym Mhenbwchdy yn pasio trwy luwchfeydd o flodau, gan gynnwys clustog Fair a gludlys arfor.

Ar yr arfordir rhwng Pen-caer a Phenmaendewi ceir rhai o'r golygfeydd mwyaf dramatig yn y Parc Cenedlaethol. Mae'n dirwedd o bentiroedd a baeau, a grëwyd yn ystod y cyfnod Ordoficaidd - rhwng 500 a 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Roedd y llosgfynyddoedd yn weithgar yn yr ardal, gan boeri llifoedd lafa a oerodd i ffurfio creigiau igneaidd caled iawn.

Mewn manau, ni chyrrhaeddodd y graig dawdd yr arwyneb, gan oeri'n araf o dan y ddaear. Dros miliynau o

flynyddoedd, mae'r mewnwthiadau igneaidd wedi gwrthsefyll erydiad lawer yn well na'r creigiau cyfagos gan ddod yn glegyr caregog fel Garn Fawr, ychydig i'r gogledd o'r llwybr hwn.

Ffurfiwyd y pentiroedd arfordirol hefyd, fel Penbwchdy, o greigiau igneaidd sydd wedi gwrthsefyll erydiad yn well na baeau fel Pwllcrochan, sydd o graig Ordoficaidd fwy meddal.

Mae Pwll Deri a Phwllcrochan yn lloches i'r gymuned fawr o forloi llwyd sy'n byw ar hyd arfordir gogleddol Sir Benfro. Yn hwyr ym mis Awst ac ym mis Medi a Hydref mae morloi'n rhoi genedigaeth mewn cildraethau tawel fel y rhain.

Mae Ian Meopham, Parmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Yn yr Hydref mae yna siawns dda iawn o weld morloi bach newydd-anedig. Os ydych chi'n eu gweld nhw, ceisiwch beidio â tharfu ar y fam trwy fod mor dawl â phosib, aros o dan linell y gorwel a chadw'ch pellter."

Mwy o wybodaeth: Byddwch yn ofalus iawn os ydych yn mynd i draeth Pwllcrochan.

